# CYNGOR TREF PORTHMADOG

## COFNODION CYFARFOD BLYNYDDOL MAI 9 2023

**Presennol :- Cynghorwyr :-** Aled Griffith, John Gwynedd Roberts, Alwyn Gruffydd, Dr Melfyn Edwards, Carol Hayes, Sandra Bodden Jones, Connor Westwood, Llywelyn Rhys( Cadeirydd), Gwilym Jones, Michael Roberts. Llinos Murphy
Marian Roberts ( Clerc)

**1.5.23 Ymddiheuriadau :- Dim**

**2.5.23 Adroddiad y Cadeirydd**
Dechreuodd y Cadeirydd ei anerchiad drwy ddiolch yn fawr i'r Clerc am y cerdyn cydymdeimlad ar ran y Cyngor Tref a dderbyniodd yn ddiweddar ar achlysur profedigaeth teulu. Roedd yn gwerthfawrogi'n arw ac yn falch o'r ymdeimlad o fod yn rhan o 'deulu' y Cyngor Tref. Dywedodd ei fod wedi bod yn Gadeirydd ers dwy flynedd a'i fod yn ystyried y swydd fel braint ac anrhydedd a bod swydd Cadeirydd yn tipyn mwy o gyfrifoldeb na bod yn Gynghorydd. Nododd bod y Cyngor wedi cyd-dynnu a chyd-weithio yn effeithiol dros y ddwy flynedd diwethaf a bod eleni wedi bod yn haws na'r yllynedd oherwydd nad oedd cymaint o wrthdaro wedi bod ac roedd y Cyngor o'r herwydd wedi medru cyflawni mwy. Roedd yn mynegi ei ddiolch i'r aelodau presennol - yn hen a newydd – ac i'r aelodau sydd wedi gadael y Cyngor dros y ddwy flynedd o'i Gadeiryddiaeth. Roedd yn diolch yn arbennig i Selwyn Griffiths am ei gefnogaeth a'i gydweithrediad fel Is-Gadeirydd yn ystod ei Gadeiryddiaeth. Roedd hefyd yn mynegi ei ddiolch i'r Clerc am ei gwaith dros y cyfnod ac am ei phroffesiynoldeb yn ymdrin â'i swydd. Cyfeiriodd at y ddau Ŵyl y Banc diweddar a'r prysurdeb ymwelwyr cynyddol ac fel yr oedd hyn yn parhau i roi mwy o bwysau ar wasanaethau lleol. Nododd bod yr ŵyl banc diweddara ar gyfer coroni y brenin. Roedd yn synnu bod system brenhiniaeth etifeddol yn parhau i fodoli yng Nghymru - system sy'n gosod grym a chyfoeth mawr ar un teulu tra'n cadw y boblogaeth fel taeogion.

**3.5.23 Ethol Cadeirydd y Cyngor am y flwyddyn 2023/2024**

**Penderfynwyd** yn unfrydol i ethol Cyng Aled Griffith yn Gadeirydd y Cyngor am y flwyddyn 2023/2024 yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng Carol Hayes yn eilio.

Cymerodd y Cadeirydd newydd, Cyng Aled Griffith ,y gadair i lywio'r cyfarfod.

**4.5.23 Ethol Is-Gadeirydd y Cyngor am y flwyddyn 2023/2024**
**Penderfynwyd** yn unfrydol i ethol Cyng Alwyn Gruffydd yn Is-Gadeirydd y Cyngor am y flwyddyn 2023/2024 yn ôl cynnig Cyng Carol Hayes, Cyng Michael Roberts yn eilio.

**5.5.23 Ethol aelodau o'r Pwyllgorau canlynol am y flwyddyn 2023/2024**

- **Pwyllgor Cyllid / Pwyllgor Datblygu ac Eiddo**

**Penderfynwyd fel a ganlyn ar gyfer Aelodaeth 2023/2024:-**

| | | |
|---|---|---|
| Cadeirydd y Cyngor | - | Cynghorydd Aled Griffith |
| Is-Gadeirydd y Cyngor | - | Cynghorydd Alwyn Gruffydd |
| Ward Gest | - | Cynghorydd John Gwynedd Roberts |
| Ward Ddwyreiniol | - | Cynghorydd Llinos Murphy |
| Ward Gest | - | Cynghorydd Dr Melfyn Edwards |
| Ward Ynys Galch | - | Cynghorydd Gwilym Jones |
| Ward Morfa Bychan | - | Cynghorydd Connor Westwood |
| Ward Gorllewin | - | Cynghorydd Michael Roberts |

- **Pwyllgor Staffio : Aelodaeth 2023/2024**

**Penderfynwyd :-** fel a ganlyn ar gyfer 2023-24 yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd.

Cadeirydd y Cyngor – Cyng. Aled Griffith
Is-Gadeirydd y Cyngor – Cyng. Alwyn Gruffydd
Cyng Gwilym Jones

- **Pwyllgor Nadolig : 2023-2024**

**Penderfynwyd :-** fel a ganlyn:-
Cyng Llinos Murphy
Cyng Sandra Bodden Jones
Cyng John Gwynedd Roberts

**6.5.23 Ethol Cynrychiolwyr ar bwyllgorau allanol :**

**Penderfynwyd :-** fel a ganlyn ar gyfer 2023-2024

| | | |
|---|---|---|
| Is Bwyllgor Harbwr Porthmadog | - | Cadeirydd y Cyngor Cynghorydd Aled Griffith |
| Ymddiriedolaeth Rebecca | - | Cyng. Gwilym Jones |
| Y Ganolfan | - | Cyng Sandra Bodden Jones |
| Amgueddfa Forwrol Porthmadog | - | Cyng Carol Hayes |
| Clwb Chwaraeon Madog | - | Cyng Alwyn Gruffydd |
| Y Ganolfan Gynghori (Cangen Caernarfon) | - | Cyng Carol Hayes |
| Caru Port | - | Cyng Michael Roberts |
| Pwyllgor Efeillio | - | Cyng Alwyn Gruffydd |
| Pwyllgor Adran Dwyfor (Un Llais Cymru) | - | Cyng Alwyn Gruffydd<br>Cyng Gwilym Jones |

**7.5.23 Dogfennau Rheolaeth *(copïau o'r rhai presennol ynghlwm)***

Angen ystyried a derbyn y dogfennau isod yn flynyddol.

1. Rheolau Sefydlog
2. Rheolau Ariannol
3. Côd Ymddygiad
4. Archwiliad Mewnol y Cyngor
5. Asesiadau Risg
6. Cofrestr Asedau
7. Polisi Cynllunio
8. Polisi di-bapur
9. Polisi Iaith
10. Polisi Datganiadau i'r Wasg
11. Cynllun Hyfforddiant

**Penderfynwyd :-** derbyn a chymeradwyo'r dogfennau i gyd ac i ystyried llunio Polisi Cyfryngau Cymdeithasol. Bydd y Clerc yn ymgynghori ag Un Llais Cymru ynglyn â hyn.

## <u>Cofnodion Cyfarfod Rheolaidd y Cyngor Tref Mai 9 2023</u>

**Presennol :- Cynghorwyr :-** Aled Griffith(Cadeirydd), John Gwynedd Roberts, Alwyn Gruffydd, Dr Melfyn Edwards, Carol Hayes, Sandra Bodden Jones, Connor Westwood, Llywelyn Rhys, Gwilym Jones, Michael Roberts. Llinos Murphy
Marian Roberts ( Clerc)

**8.5.23 Ymddiheuriadau :- dim**
**9.5.23 Adroddiad y Cadeirydd.**

Roedd y Cadeirydd newydd yn awyddus iawn i gyflwyno ei hun trwy rannu gwybodaeth gefndirol amdano'i hun. Dywedodd fel yr oedd yn byw yn yr ardal ers 25 mlynedd a'i fod yn wreiddiol o Lanbedr, Meirionnydd. Mae'n dad i dri o blant – 2 yn y Coleg a'r llall yn Ysgol Eifionydd - a chafodd brofedigaeth bron i ddwy flynedd yn ôl o golli ei wraig, Sian. Mae wedi bod ar Fwrdd Llywodraethwyr Ysgol y Gorlan ers 11 mlynedd; wedi bod yn arwain elusen Tremadog 200; wedi bod yn drysorydd Clwb Peldroed Ieuenctid Llanystumdwy ers 12 mlynedd ac wedi bod yn Gynghorydd Tref dros Ward Tremadog ers 2019. Roedd yn ddiolchgar iawn i gael ei ethol yn Gadeirydd ac yn edrych ymlaen i'r ddwy flynedd nesaf yn y swydd.

**10.5.23 Cadarnhau cywirdeb cofnodion :-**

**Cyfarfod Rheolaidd Pwyllgor Llawn Ebrill 11 2023**
Cafwyd yn gywir yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng John Gwynedd Roberts yn eilio.

**Cyfarfod Is-Bwyllgor Cyllid ac Eiddo Ebrill 25 2023**
Cafwyd yn gywir yn ôl cynnig Cyng Dr Melfyn Edwards, Cyng Gwilym Jones yn eilio.

**11.5.23 Cyfle i'r Cynghorwyr ddatgan diddordeb.**

Cyng Aled Griffith – mater 16.5.23

**MATERION I'W DWYN GERBRON :-**

Gadawodd y Clerc yr adeilad ac aeth y cyfarfod yn gaëedig.

**12.5.23 Cymeradwyo penderfyniad yr Is-Bwyllgor Cyllid ac Eiddo 25.4.23 i godi gris cyflog y Clerc o 25 i 27 ar raddfa NALC – o £16.54 i £17.58 yr awr.**
Aeth y cyfarfod yn agored a dychwelodd y Clerc i'r cyfarfod i gofnodi penderfyniad y Cyngor i gymeradwyo penderfyniad yr Is-Bwyllgor Cyllid ac Eiddo 25.4.23.

**Cymerodd yr Is-Gadeirydd, Cyng Alwyn Gruffydd y Gadair tra bu'r Cadeirydd, Cyng Aled Griffith, yn cyflwyno ei gynnig:-**

**13.5.23 Cyng Aled Griffith :- cynnig holi Steffan Jones am gynnydd datblygiadau'r Golff Bach.**
Mynegwyd siom gan y Cyngor Tref am nad oedd dim gwaith wedi ei wneud gan Gyngor Gwynedd i wella cyflwr y parc er i Steffan Jones, Pennaeth Adran Priffyrdd a Bwrdeisdrefol Cyngor Gwynedd, restru llu o welliannau ar ei gyfer pan ddaeth i annerch y Cyngor Tref ynglyn â'r cynlluniau arfaethedig yng nghyfarfod mis Mawrth eleni.
**Penderfynwyd :-** ysgrifennu at Steffan Jones i fynegi anfodlonrwydd y Cyngor Tref am y sefyllfa gan yrru copi hefyd i'r Prif Weithredwr gan gynnwys copi o Gofnodion cyfarfod 14.3.23 ble ceir amlinelliad o gynlluniau arfaethedig Cyngor Gwynedd ar gyfer y parc yn ôl cynnig Cyng Gwilym Jones, Cyng John Gwynedd Roberts yn eilio.

**Rhoddwyd y Gadair yn ôl i'r Cadeirydd, Cyng Aled Griffith.**

**14.5.23 Cyng Llywelyn Rhys :- cynnig holi'r awdurdodau am arwyddion anghywir a chamarweiniol ar hyd llwybr Carreg Samson. (Gweler lluniau)**
Nodwyd nad oedd y ffordd yma yn un breifat ond yn hytrach yn rhan o rwydwaith Llwybrau Cyhoeddus Gwynedd. Cytunwyd felly na ddylai trigolion y tai cyfagos osod arwyddion uniaith Saesneg yn mynegi i'r gwrthwyneb.

**Penderfynwyd :-** gweithredu ar y cynnig gan fynegi yn gryf wrthwynebiadau'r Cyngor Tref i'r arwyddion uniaith Saesneg camarweiniol yn ôl cynnig Cyng Llywelyn Rhys, Cyng Carol Hayes yn eilio.

**15.5.23 Cyng Llywelyn Rhys** :- **cadarnhau cyfraniad Cyngor Tref Porthmadog i ddathliadau Eisteddfod Genedlaethol 2023.**
Trafodwyd mater 22.5.23 yn ogystal yma. Cafwyd trafodaeth hir ynglyn â phwysigrwydd addurno'r dref ar gyfer wythnos yr Eisteddfod Genedlaethol ym Moduan eleni. Cytunwyd fod yr amser yn brin erbyn hyn a bod yn rhaid gweithredu yn fuan iawn er mwyn sicrhau sioe deilwng.
**Penderfynwyd ar y camau canlynol :-**

- Ail-gysylltu â Swyddfa'r Eisteddfod i'w atgoffa o'r cyfraniad ariannol sylweddol gan y Cyngor Tref ; i gydnabod pwysigrwydd yr Eisteddfod i'r Cyngor ac i'r ardal leol ac i gydnabod gwaith caled y Pwyllgor Apêl lleol yn eu gwaith diflino i godi arian i'r Eisteddfod;
- Ail-gysylltu ag ysgolion cynradd lleol a C.FF.I Dyffryn Madog i ddarganfod beth allent ei gyfrannu i addurno'r dref;
- Holi J.R.Electrics am bris gosod baneri Cymru ar bolion y tu allan i siopau'r dref;
- Codi Is-bwyllgor ar gyfer cydlynu syniadau a rhannu cyfrifoldebau.

Cytunodd y Cynghorwyr Aled Griffith,Carol Hayes,John Gwynedd Roberts Dr Melfyn Edwards a Michael Roberts i fod ar yr Is-bwyllgor a bydd y Clerc yn trefnu cyfarfod yn yr wythnos nesaf er mwyn gweithredu yn fuan.

**Cymerodd yr Is-Gadeirydd, Cyng Alwyn Gruffydd y Gadair tra bu'r Cadeirydd, Cyng Aled Griffith yn cyflwyno ei gynnig:-**

**16.5.23 Cyng Aled Griffith :- cynnig gyrru llythyr ar ran y Cyngor Tref i Senedd Cymru / Chwaraeon Cymru / AS / Cynghorau eraill Gogledd Cymru i bwyso i ddatblygu pwll nofio cystadleuol 50m yng Ngogledd Cymru.**
Clywyd am y diffyg cyfleoedd i ymarfer nofio cystadleuol yn lleol. Nodwyd mai dim ond 2 bwll nofio o safon Olympaidd sydd yng Nghymru – un yng Nghaerdydd a'r llall yn Abertawe. Y pwll Olympaidd agosaf i ardal Porthmadog yw Stockport neu Lerpwl.
**Penderfynwyd :-** gweithredu ar gynnig Cyng Aled Griffith, Cyng Dr Melfyn Edwards yn eilio.

**Rhoddwyd y Gadair yn ôl i'r Cadeirydd, Cyng Aled Griffith.**

**17.5.23 Cyng Llinos Murphy :- Cynnig cynnal cyfarfod gyhoeddus yn Y Ganolfan a gwahodd rhywun o Gyngor Gwynedd i ddod i drafod beth fyddai cynllun Trwydded Parcio Trigolion yn ei olygu i drigolion Porthmadog cyn parhau efo'r syniad. (Bydd angen cofnodi enwau etc ar y noson a pha strydoedd sydd efo diddordeb.)**
Trafodwyd cynnwys gohebiaeth 10 oddiwrth Iwan ap Trefor( cofnod 34.5.23) lle mae'n awgrymu rhannu'r dref i 2 gynllun 1 – East Avenue;Heol Newydd a Stryd Glaslyn a 2 - Heol yr Wyddfa;Heol Fadog a Stryd Wesla.  Cytunwyd fod angen gweithredu i wella problem parcio yn y dref ond bod angen profi barn trigolion lleol yn gyntaf cyn symud ymlaen.
**Penderfynwyd :-** y byddai Cyng Llinos Murphy yn trefnu cyfarfod cyhoeddus i drigolion Cynllun 1 – East Avenue;Heol Newydd a Stryd Glaslyn i wyntyllu barn y trigolion ar y mater cyn symud ymlaen i weithio gyda Chyngor Gwynedd i lythyru trigolion y strydoedd yma yn ôl cynnig Cyng Llinos Murphy, Cyng Dr Melfyn Edwards yn eilio.

**18.5.23 Cyng Gwilym Jones :- cynnig peidio a gwrthwynebu gosod llinellau melyn ar ddwy ochr cyffordd Marine Terrace a'r Garth.**
**Penderfynwyd :-** gweithredu ar gynnig Cyng Gwilym Jones, Cyng Llywelyn Rhys yn eilio.

**19.5.23 Cyng Carol Hayes :- Cynnig bod Cyngor Tref Porthmadog yn gwrthwynebu unrhyw ymgais i gynnal seremoni arwisgo i William (mab y brenin Charles III) yng Ngwynedd neu mewn unrhyw diriogaeth Gymreig arall.**
**Penderfynwyd :-** gweithredu ar gynnig Cyng Carol Hayes a dileu geiriau olaf y frawddeg "yng

Ngwynedd neu mewn unrhyw diriogaeth Gymreig arall.”, Cyng Llywelyn Rhys yn eilio.

**Cymerodd yr Is-Gadeirydd, Cyng Alwyn Gruffydd y Gadair tra bu’r Cadeirydd, Cyng Aled Griffith yn cyflwyno ei gynnig:-**

**20.5.23 Cyng Aled Griffith :- cynnig ysgrifennu i Gyngor Gwynedd i holi beth yw eu cynlluniau am fuddsoddi mewn unedau newydd ar stâd ddiwydiannol Penamser a holi perchennog y tir tu ôl i Garej Carafannau Hamdden beth yw eu cynlluniau ar gyfer y tir yma.**
Nodwyd mai Llywodraeth Cymru sydd berchen y tir yma ers ei brynu ar gyfer ei ddatblygu yn y gorffennol ac nad oedd dim wedi ei wneud iddo ers y pryniant.
**Penderfynwyd :-** ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i holi beth yw eu cynlluniau ar gyfer y tir yma yn ôl cynnig Cyng Aled Griffith, Cyng Sandra Bodden Jones yn eilio.

**Rhoddwyd y Gadair yn ôl i’r Cadeirydd, Cyng Aled Griffith.**

**21.5.23 Cyng Dr Melfyn Edwards :- cynnig holi perchennog tir Garreg Wen ynglyn â’r ‘dympio’ sbwriel ar ben llwybr Uwchllyn.**
**Penderfynwyd :-** cyfeirio’r mater i sylw Gwenan Mai Roberts, o Adran Niwsans Sŵn a Llygredd Cyngor Gwynedd yn ôl cynnig Cyng Dr Melfyn Edwards, Cyng Gwilym Jones yn eilio.

**22.5.23 Cyng Aled Griffith :- cynnig prynu baneri Cymru a gofyn am bris gan R.J.Electrics i’w gosod ar y polion sydd y tu allan i siopau’r dref.**
Trafodwyd yr eitem yma ar y cyd â 15.5.23.

**23.5.23. Materion i’w dwyn gerbron y Cadeirydd unai er gwybodaeth neu i’w rhoi ar y Rhaglen ar gyfer y cyfarfod nesaf**. *Dyddiad cau Rhaglen Mehefin 13 2023 = Mehefin 3 2023 , ( Rheolau Sefydlog 8.1 “ o leiaf deg diwrnod cyn cyfarfod y Cyngor”.)*

- **Cyng Dr Melfyn Edwards :-** cynnig gofyn am ddiweddariad ar sefyllfa addurno’r dref ar gyfer yr Eisteddfod.

**24.5.23 Gohebiaeth : Rhestr Aros am Ateb (**copi ynghlwm)**.**
**Penderfynwyd** :- dileu y 2 lythyr cyntaf oddiar y rhestr.
Mynegwyd anfodlonrwydd na chafwyd ateb i’r llythyrau ynglyn â’r ‘dympio’ a’r llygru sydd yn digwydd ar gors Borth y Gest.
**Penderfynwyd :-** ysgrifennu at y Prif Weithredwr i gwyno am y diffyg gweithredu ac i fygwth mynd â’r mater i’r Wasg os na dderbynir ymateb ganddo o fewn pythefnos yn ôl cynnig Cyng John Gwynedd Roberts, Cyng Gwilym Jones yn eilio.
Gan fod cymaint o lythyrau yn aros am ymateb **penderfynwyd :-** bod y Clerc yn ail – yrru pob llythyr na chafwyd ymateb iddo ar ôl 2 fis.

**GOHEBIAETH :**

**25.5.23 ANDREW OUGHTON, Cyfeillion Ysbyty Alltwen**
**Penderfynwyd :-** derbyn y wybodaeth ac ysgrifennu llythyr o gefnogaeth a llythyr at Mabon ap Gwynfor yn datgan pryderon y Cyngor yn ôl cynnig Cyng Dr Melfyn Edwards, Cyng Gwilym Jones yn eilio.

**26.5.23 ANN HOPCYN, O Law i Law – Caernarfon**
**Penderfynwyd :-** derbyn y wybodaeth a diolch iddynt am y wybodaeth ond gwrthod y cynnig i gyfarfod.

**27.5.23 PETER SIMPSON, Hwb Tîm Tacluso Ardal Ni**
**Penderfynwyd :-** derbyn y wybodaeth

**28.5.23 HYWYN WILLIAMS, Astudiaeth achos derbyn grant Partneriaethau Natur Lleol a chopi o'r Astudiaeth Achos ( Copi electronig 7 tudalen yn unig)**
**Penderfynwyd :-** derbyn y wybodaeth

**29.5.23 UN LLAIS CYMRU, Rheolau Sefydlog**
**Penderfynwyd :-** derbyn y wybodaeth

**30.5.23 ELUNED MORGAN I MABON AP GWYNFOR, Meddygfa Porthmadog**
**Penderfynwyd :-** derbyn y wybodaeth

**31.5.23 CYNGOR GWYNEDD, Holiadur Perfformiad Cyngor Gwynedd**
**Penderfynwyd :-** derbyn y wybodaeth a phob aelod i ymateb i'r holiadur yn unigol yn ôl cynnig Cyng Llywelyn Rhys, Cyng Carol Hayes yn eilio.

**32.5.23 BLEDDYN RHYS, Adroddiad Archwiliad Mewnol 2022-2023**
**Penderfynwyd :-** derbyn y wybodaeth

**33.5.23 BLEDDYN RHYS, Ffurflen Flynyddol Archwiliad 2022-2023**
**Penderfynwyd :-** derbyn y wybodaeth

**34.5.23 IWAN AP TREFOR, Ymateb i 377.4.23 Cynllun Parcio Trigolion**
Trafodwyd y mater eisoes yn 17.5.23.

**35.5.23 BLACK ROCK BEACH CLUB, Ymateb i 376.4.23 cais am arwyddion dwy-ieithog**
Roedd y Cyngor Tref yn gwerthfawrogi'r ffaith iddynt dderbyn ymateb dwy-ieithog yn ôl gan reolwr y sefydliad ond yn parhau i ofidio fod y perchennog wedi newid enw'r safle o'r Glanaber i enw Saesneg nad oedd yn rhoi unrhyw synnwyr o leoliad y lle.
**Penderfynwyd :-** ysgrifennu'n ôl i fynegi'r uchod ac i ofyn yn garedig iddynt ail-ystyried enw'r dafarn a defnyddio'r enw gwreiddiol ac i'w cyfeirio at wefan Comisiynydd y Gymraeg lle cynigir cyngor ac arweiniad i fusnesau yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng Michael Roberts yn eilio.

**36.5.23 ELGAN ROBERTS, Ymateb i 378.4.23 – mainc Glenda Burke**
**Penderfynwyd :-** ysgrifennu'n ôl at Elgan Roberts i ddiolch yn fawr iawn iddo ac i dderbyn ei gynnig caredig yn rhoi ei wasanaeth am ddim i atgyweirio mainc Goffa Glenda Burke, yn ôl cynnig Cyng Llywelyn Rhys, Cyng Michael Roberts yn eilio.

**37.5.23 UN LLAIS CYMRU, Cynigion ar gyfer Cyfarfod Cyffredinol 2023**
**Penderfynwyd :-** derbyn y wybodaeth a gadael y mater ar y bwrdd tan y cyfarfod nesaf ar 13.6.23.

**38.5.23** Trafodwyd y lluniau o leoliadau posibl i osod bwrdd gwybodaeth ar y Garth a cytunwyd fod y ffordd yn un beryglus i osod unrhyw beth allai dynnu sylw neu greu rhwystr ar y ffordd.
**Penderfynwyd :-** holi Cyngor Gwynedd am leoliad addas ar hyd y ffordd yma.

**39.5.23 MATERION ARIANNOL :**

**Derbyniadau :**

| | | |
|---|---|---|
| CAE PAWB | Rhent 2023-24 | £ 770.00 |
| H.S.B.C. | Llog Banc Mawrth – Ebrill 2023 | £ 37.64 |
| CYNGOR GWYNEDD | Praesept – Taliad 1 | £ 31,290.71 |
| H.M.R.C. | Ad-daliad TAW 2022-23 | £ 6,471.61 |

Awdurdodwyd y taliadau canlynol yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng Dr Melfyn Edwards yn eilio:-

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1 | Marian Roberts | LLinell Ffôn a Wê Ebrill 2023 | £ 65.17 |
| 2 | Marian Roberts | Cyflog Clerc Ebrill 2023 | £ 922.97 |
| 3 | Marian Roberts | Lwfans blynyddol rhedeg swyddfa | £ 300.00 |
| 4 | Cyllid a Thollau ei Mawrhydi | Treth Incwm cyflog Clerc Ebrill 2023 | £ 230.74 |
| 5 | Marian Roberts | Ad-daliad am 16 stamp ail ddosbarth | £ 12.00 |
| 6 | Marian Roberts | Ad-daliad am Inc du | £ 19.59 |
| 7 | B.H.I.B. | Primiwm Yswiriant 2023-2024 | £ 1,541.92 |
| 8 | Y Ganolfan | Cyfarfodydd mis Ebrill | £ 60.00 |
| 9 | Marian Roberts | Ad-daliad am 2 faner Draig Goch a 2 faner Dewi Sant gan Cadwyn Cyf ar gyfer cylchdro Bodawen | £ 23.75 |
| 10 | Gardencraft | Llenwi tybiau blodau'r Stryd Fawr | £ 120.00 |
| 11 | Criccieth Cleaning | Glanhau llochesi bws | £ 201.60 |

( Mae copi o bob siec ar gael i'w harchwilio ar gyfer awdit/rheolau ariannol)

**40.5.23 Cyfrifon 2022-2023**
**Derbyn a chymeradwyo Adroddiad yr Archwilydd Mewnol a Ffurflen Flynyddol 2022-2023**
**( copi ymghlwm - gohebiaeth 7 ac 8 )**
**Penderfynwyd :-** derbyn y wybodaeth a chymeradwyo Adroddiad yr Archwilydd Mewnol a Ffurflen Flynyddol 2022-2023 yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng Gwilym Jones yn eilio.

**<u>41.5.23 CEISIADAU CYNLLUNIO</u>**

**(a) Rhif Cais .: C23/0330/44/DT ( wedi ebostio i'ch sylw 20.4.23)**
Lleoliad : 14 Tan Y Foel, Borth Y Gest, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9UE
Bwriad: Porth newydd i'r ochr, trosi modurdy i ystafelloedd byw gan gynnwys to wedi ei insiwleiddio newydd, estyniad unllawr i'r cefn, storfa o bren i'r cefn ac ardal decin wedi ei godi gyda lle storio oddi tano

**Penderfynwyd :-** Dim gwrthwynebiad yn ôl cynnig Cyng Llywelyn Rhys, Cyng Dr Melfyn Edwards yn eilio.

Daeth y cyfarfod i ben am 21.10

Marian Roberts
( Clerc)
11.5.23